

CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 9fed o Hydref 2023 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam Webb a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson.**
Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a'r Cyng. Robert D Jones.

Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddi-dordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar yr 11eg o Fedi ar gynnis Cyng Gwynedd Roberts a'i eilio gan Cyng Miriam Webb.

4. **Materion yn codi**

a) **Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae** – nodwyd yr angen cael tendrau newydd ar gyfer 2024. Byddai angen 3 tendr, gan gynnwys un gan Owain Williams. Byddai angen hysbysu yn Dail Dysynni, yr hysbyswrdd a'r wefan.

b) **Costau claddedigaethau** – cadarnhawyd dilyn costau Cyngor Gwynedd, a'r Cyngor yn talu l'r sawl sy'n agor bedd.

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan Steve Davies ynglyn a claddu llwch yn diweddar William Davies yn Eglwys Llanfihangel y Pennant ar Ddydd Sadwrn yr 2ail o Ragfyr. Roedd yn ymdrin a hyn, a chysylltu gyda Richard Griffiths ynglyn ag agor bedd.

Derbyniwyd waith papur gyda chladdu llwch y diweddar JC Smith ar y 3ydd Hydref. (taliad £522 wedi ei dderbyn drwy BACS 25.09.23)

c) **Gwaith gyda HMRC – PAYE i'r Clerc.** Nodwyd fod Cwmni Evans & Owen, Dolgellau wedi derbyn y gwaith.

d) **Gwaith paentio ar offer yn y Cae chwarae** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r 3 a enwyd, ac roedd 2 wedi dod yn ol ato. Nid oedd tendrau eto i law, ac roedd rhaid atgoffa.

e) **Rheilffordd Talyllyn** – nid oedd unrhyw ddiweddariad.

f) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd unrhyw ddiweddariad.

g) **Gwefan i'r Cyngor** – trafodwyd cynnis i law i weinyddu y wefan gan HG Web Designs, sef cost cychwynol o £250, hefyd £150 am hostio'r www yn flynyddol a £100 y flwyddyn am ddiweddarau ac ati. Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn hyn. Byddai angen lluniau a chyflwyniad byr i'r ardal.

h) **Contract gwaith i'r Clerc** – roedd hyn wedi ei baratoi gan y Clerc, a dosbarthwyd l'r Cynghorwyr. Cytunwyd yn unfrydol l'w dderbyn.

i) **Safle Treftadaeth** – Nodwyd fod y cyfarfod Grwp Llechi diwethaf wedi ei ohirio. Nododd y Clerc ei fod wedi ymateb l Hannah o Cyngor Gwynedd fod y Cyngor wedi penderfynnu peidio mynd ymlaen l roi plac ychwanegol ar y Ganolfan, ac roedd hyn wedi ei gydnabod.

j) **Bin baw cwn** – nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda'r warden a Galw Gwynedd ar ol y cyfarfod diwethaf, ond roedd yn parhau yn llawn. Roedd wedi siarad ymhellach ar y ffon, ac wedi cael rhif ar gyfer yr achos. Byddai rhaid aros 7 diwrnod. Dywedodd Cyng Gwynedd Roberts fod ganddo lond bocs o sachau at ein defnydd.

k) **Panelli gwybodaeth taith Mari Jones** – roedd y Clerc wedi ymateb l Nerys Siddall, ond heb glywed dim ymhellach.

5. Materion Cynllunio

Roedd un cais i law ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/67/16G – Adeiladu sied amaethyddol dros y storfa dail bresennol- Ty'n y Bryn, Llanfihangel y Pennant .

Penderfynwyd yn unfrydol fod y Cyngor yn gefnogol l'r cais. Byddai'r Clerc yn ymateb.

6. Materion Cyllid.

Penderfynwyd talu y canlynol;

Anfoneb Major & Evans, Cyfrifwyr – gwaith hyd at diwedd Awst - £90.00

Anfoneb Owain Williams am dorri gwair y Cae Chwarae a Mynwent y Llan - £680.

Anfoneb Richard Griffiths am agor bedd claddu llwch diweddar JC Smith - £50.

Cydnabyddiaeth y Clerc am fis Medi £133.47 a HMRC £33.20.

Roedd dau gais am arian i law a phenderfynwyd fel a ganlyn;

Eisteddfod Abergynolwyn - £150

Ambiwlans Awyr Cymru - £200.

7. Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)

Roedd ymddiheuriad i law gan Cyng Beth Lawton y tro yma.

8..Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.

Nid oedd cyfarfodydd l'w hadrodd y tro hwn, ac roedd ymddiheuriad gan Cyng Elwyn Evans na allodd fynychu y cyfarfod ardal diwethaf ar y 4ydd Hydref. Roedd pryder am leihad y nifer oedd wedi ymateb Cyfarfod Blyneddol U LL Cymru, a bu raid gohirio.

9. Gohebiaeth.

- Roedd e-bost i law gan Jane Barraclough a ran Grwp ysbyty Tywyn, a oedd yn cynnwys rhai attachments. **Penderfynwyd ei gwahodd l'r cyfarfod nesaf ar y 13eg o Dachwedd.**
- Nodwyd e-bost gan Ifan Llewelyn Jones ar ran 'Hunaniaith', a'u bod yn symud allan o reolaeth Cyngor Gwynedd o fis Ebrill nesaf, ac yn cael eu hadnabod fel 'Menfer iaith Gwynedd'

10. Hyfforddiant Cyngorwyr

Addawodd y Clerc ddanfôn manylion y cyrsiau diweddaraf oddiamgylch y Cyngorwyr, pan fyddent i law gan Un Llais Cymru. Cadarnhwyd y byddai'r Cyngor yn talu costau l Gynghorwyr fynd ar gyrsiau.

11. Rheolau Sefydlog newydd a pholisïau i'w derbyn.

Roedd copi drafft o Reolau Sefydlog newydd a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru yn 2023 wedi ei gylch redeg l'r Cynghorwyr ymlaenllaw. Roedd y rhain yn cydymffurfio a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Roeddynt wedi eu newid i fod yn berthnasol l'r Cyngor, a chyfeiriwyd yn arbennig at y polisi tuag at defnydd o'r iaith Gymraeg. Ar gynnig Cyng Gwynedd Roberts a'l eilio gan Cyng Elwyn Evans roedd pawb yn unfrydol y dylid eu mabwysiadu.

Dywedodd y Clerc fod angen mabwysiadu polisïau eraill cyn eu rhoi ar y wefan, gan gynnwys Polisïau Cyfle Cyfartal, Rhyddid Gwybodaeth, Amgylcheddol, Diogelu Gwybodaeth a Data, ynghyd a pholisï Pryderon a Chwynion. .

12. Unrhyw fater arall

- Roedd angen diweddarau nifer o gyrff a sefydliadau gyda manylion y Clerc, ac roedd hyn mewn llaw.
- Nodwyd y gellir bwcio y Ganolfan ar gyfer cyfarfodydd drwy e-bost i'r dyfodol Abergynolwyn.ganolfan@outlook.com;
- Nododd y Clerc y byddai yn paratoui cyllideb ar gyfer blwyddyn 2024-25, cyn ystyried penderfyniad ar y praesept. Roedd angen hefyd penderfynnu ar lwfansau Cynghorwyr mewn da bryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN NOS LUN 13eg Tachwedd 2023 , 7.00y.h.

CARTREF MARI JONES

Nodwyd swm o £17.32 yn y Blwch rhoddion, a byddai'r Clerc yn bancio.

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a meeting of the Council held on Monday evening the 9th of October 2023 at 7.00pm in the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllr. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam Webb and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Emrys Thompson. Apologies were received from Cllr Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Cllr. Robert D Jones.

Declarations of interest were invited for issues on the agenda, but no declaration was made.

2. It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.

3. The minutes of the meeting held on the 11th of September were confirmed on the proposal of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Miriam Webb.

4. Matters arise

a) Cutting the grass of cemeteries and the playing field - it was noted the need to get new tenders for 2024. We would need 3 tenders, including one from Owain Williams. It would be necessary to notify in Dail Dysynni, the notice board and the website.

b) Burial costs - it was confirmed that the Council follows Gwynedd Council's costs, and the Council pays the person who opens a grave.

The Clerk noted that he had received an email from Steve Davies regarding the burial of the ashes of the late William Davies in Llanfihangel y Pennant Church on Saturday the 2nd

of December. He had dealt with this, and contacted Richard Griffiths regarding opening a grave.

Paperwork was received with the burial of the late JC Smith on the 3rd October. (payment of £522 received via BACS 25.09.23)

c) Work with HMRC – PAYE for the Clerk. It was noted that Evans & Owen, Accountants, Dolgellau had accepted the work.

d) Painting work on equipment in the Playground - the Clerk had contacted the 3 named, and 2 had come back to him. Tenders were not yet available, and they had to be reminded.

e) Talylllyn Railway - there was no update.

f) Tree damaging a wall - there was no update.

g) Website for the Council - an offer to administer the website was to hand by HG Web Designs, an initial cost of £250, also £150 for hosting the www annually and £100 per year for updating etc. It was unanimously decided to accept this. Pictures and a short introduction to the area would be needed.

h) Work contract for the Clerk - this had been prepared by the Clerk, and distributed to the Councillors. It was unanimously agreed to be accepted.

i) Heritage Site - It was noted that the last Slate Group meeting had been postponed. The Clerk noted that he had responded to Hannah from Gwynedd Council that the Council had decided not to go ahead with putting an additional plaque on the Centre, and this had been acknowledged.

j) Dog litter bin - the Clerk noted that he had contacted the warden and Galw Gwynedd after the last meeting, but it was still full. He had spoken further on the phone, and had been given a reference number for the case. It was suggested that we now wait 7 days. Cllr Gwynedd Roberts said he had a box full of sacks for our use.

k) Mari Jones information panels - the Clerk had responded to Nerys Siddall, but had not heard anything further.

5. Planning Matters

There was one request received since the last meeting, namely;

NP5/67/16G - Construction of an agricultural shed over the existing leaf store - Ty'n y Bryn, Llanfihangel y Pennant.

It was unanimously decided that the Council was supportive of the application. The Clerk would respond.

6. Finance Matters.

It was decided to pay the following;

Invoice Major & Evans, Accountants - work up to the end of August - £90.00

Owain Williams' invoice for cutting the grass of the Playground and Llan Cemetery - £680.

Richard Griffiths' invoice for opening the grave of late JC Smith - £50.

Clerk's remuneration for September £133.47 and HMRC £33.20.

There were two applications for money and it was decided as follows;

Abergynolwyn Eisteddfod - £150

Wales Air Ambulance - £200.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

There was an apology from Cllr Beth Lawton this time.

8..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

There were no meetings to report this time, and there was an apology from Cllr Elwyn Evans who was unable to attend the last area meeting on the 4th October. There was concern about the reduction in the number of people who had responded to the U LL Cymru Annual Meeting, and it had to be postponed.

9. Correspondence.

- An email was received from Jane Barraclough and the Tywyn Hospital Group, which contained some attachments. It was decided to invite her to the next meeting on the 13th of November.
- An email was noted from Ifan Llewelyn Jones on behalf of 'Hunaniaith', and that they are moving out of the control of Gwynedd Council from next April, and are known as 'Menfer iaith Gwynedd'

10. Councilor Training

The Clerk promised to send details of the latest courses around the Councillors, when they were received by Un Llais Cymru. It was confirmed that the Council would cover costs for Councilors to attend courses.

11. New Standing Orders and policies to be accepted.

A draft copy of new Standing Rules published by One Llais Cymru in 2023 had been circulated to the Councilors in advance. These complied with the latest legislation. They had been changed to apply to the Council, and particular reference was made to the policy towards the use of the Welsh language. On the motion of Cllr Gwynedd Roberts and seconded by Cllr Elwyn Evans, everyone was unanimous that they should be adopted. The Clerk said that other policies needed to be adopted before putting them on the website, including Equal Opportunity, Freedom of Information, Environmental, Information and Data Protection Policies, together with a Concerns and Complaints policy.

.

12. Any other matter

- A number of bodies and organizations needed to be updated with the Clerk's details, and this was in hand.
- It was noted that the Ganolfan can be booked for meetings by email to the future Abergynolwyn.ganolfan@outlook.com;

- The Clerk noted that he would prepare a budget for the year 2024-25, before considering a decision on the praecept. Councilors' allowances also needed to be decided in good time before the end of the financial year.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN MONDAY 13th November 2023, 7.00 p.m.

CARTREF MARI JONES

A sum of £17.32 was noted in the donation Box, and the Clerk would bank.